

Gwybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Os ydych chi'n amau bod gan eich plentyn anghenion addysgol arbennig (AAA), dylech siarad â phennaeth eich plentyn neu'r Cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig (Cydgysylltydd AAA) yn yr ysgol. Os nad yw'ch plentyn yn yr ysgol eto, mae'n bosibl bod eich ymwelydd iechyd neu'r paediatregydd cymunedol wedi cael gair â chi. Os yw'n bosibl, caiff disgyblion ag AAA eu dysgu yn ysgol brif ffrwd eu dalgylch lleol yn hytrach na mewn ysgol arbennig.

Bydd pob ysgol yn cael arian ychwanegol yn eu cyllideb i'w helpu i ddiwallu anghenion plant ag AAA. Mae Cydgysylltydd AAA ym mhob ysgol i roi cymorth a chynghor ychwanegol. Mae seicolegwyr ac athrawon arbenigol (sy'n gweithio mewn nifer o ysgolion gwahanol) hefyd ar gael i helpu'r ysgol.

Os oes gan eich plentyn anghenion sylweddol, mae'n bosibl y bydd yn cael asesiad statudol, a gall hynny wedyn arwain at ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Anaml iawn y bydd hyn yn digwydd, fodd bynnag, gan y bydd gan eu hysgol leol ddigon o adnoddau fel arfer i ddiwallu anghenion ychwanegol cymedrol.

Os yw'ch plentyn yn cael datganiad, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio gwneud yn siŵr bod yr ysgol leol yn gallu parhau i ddiwallu ei anghenion. Bydd angen i ambell blentyn, fodd bynnag, gael ei ddysgu mewn uned arbenigol mewn ysgol brif ffrwd neu, weithiau, mewn ysgol arbennig. Mae gan nifer o ysgolion prif ffrwd adnoddau, cyfleusterau a staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ddiwallu anghenion plant sydd ag anghenion dysgu penodol. Mae gan ambell blentyn anghenion cymhleth, hirdymor ac mae'n well iddyn nhw gael eu dysgu mewn ysgol arbennig lle mae athrawon a chyfarpar arbenigol ar gael. Mae dwy ysgol arbenigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef Ysgol Arbennig Heronsbridge ac Ysgol Arbennig Bryn Castell. Yr awdurdod lleol sy'n penderfynu pa ddisgyblion sy'n mynd i'r ysgolion hyn.

Os oes gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig yna, yn ystod yr adolygiad blynyddol ym Mlwyddyn 5, dylid trafod lle y bydd yn cael ei addysgu uwchradd. Bydd yr awdurdod lleol yn trafod argymhelliad yr adolygiad yn ystod tymor cyntaf y disgybl ym mlwyddyn 6.

Nid yw rhieni'n cael dewis lleoliad addysgol os oes gan eu plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Gall rhieni ddweud wrth yr awdurdod lleol lle yr hoffent i'w plentyn gael ei addysgu neu gallant nodi hynny yn yr adolygiad blynyddol

a bydd yr awdurdod lleol yn trafod hyn â'r rhieni a'r ysgol cyn penderfynu pa ysgol fydd yn diwallu anghenion y plentyn orau.

Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i enwi ysgol wahanol i ysgol leol y dalgylch. Os oes gan eich plentyn ddatganiad, ac os ydych am i'ch plentyn symud i ysgol arall am ryw reswm, bydd angen i chi anfon cais ysgrifenedig at y tîm anghenion addysgol arbennig statudol yn gofyn iddynt newid datganiad eich plentyn a bydd yr awdurdod lleol yn ystyried y cais hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu partneriaeth gyda Phrosiect Cyngori Anghenion Arbennig (SNAP). Corff annibynnol yw SNAP ac mae'n rhoi cymorth ac arweiniad i rieni plant ag anghenion arbennig. Gallwch gysylltu â SNAP ar eu llinell gymorth, sef 0808 801 0608.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, ffoniwch y Gwasanaeth Cynhwysiant ar 01656 815230.